**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED HARLECH A GYNHALIWYD YN YR HEN LYFRGELL, HARLECH AM 7.00 O'R GLOCH 12.05.25**

**YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Ceri Griffiths, Tegid John, Rhian Corps a Gwynfor Owen (Cyngor Gwynedd).

**PRESENNOL**

Cyng. Christopher Braithwaite (Cadeirydd), James Maxwell (Is-Gadeirydd), Edwina Evans, Wendy Williams, Gordon Howie, Mark Lewis, Simon Turner, Reg Chapman, Martin Hughes, a'r Cyng. Annwen Hughes (Cyngor Gwynedd).

'Roedd 3 aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar gychwyn y cyfarfod.

**Cwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd**

Cafwyd cwestiynau a sylwadau gan rhai o'r cyhoedd

Yn diolch bod gwefan newydd y Cyngor bellach yn fyw ond bod nhw yn siomedig bod adroddiad Hanks ag Archwilio Cymru ddim arno ag eglurwyd mae newydd ddod yn fyw oedd y wefan newydd a bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu uwchlwytho iddo yn fuan.

Cafwyd wybod gan aelod o'r cyhoedd ei bod wedi anfon e-bost i'r Clerc ar y 1af o'r mis hwn ond heb gael ateb ag eglurwyd bod e-bost Cyngor y Clerc ddim yn gweithio bellach

Ddim wedi sylw bod y Cyngor ddim yn cyfarfod ar y nos Lun gyntaf y mis hwn ag yn gofyn a fyddai posib dweud dyddiad y cyfarfod nesa ar ddiwedd bob cyfarfod.

Eisiau gwybod beth oedd "hyrwyddiad di-rwystr o fuddianau lleol hyper" yn ei olygu ar y wefan a datganwys bod hyn i wneud hefo datblygu ail ran o'r wefan.

Yn gofyn i gael cyfraniad y cyhoedd ar yr agenda a nid arwahan ag eglurwyd nid oedd yn yn bosib am bod y cyhoedd ddim yn aelodau o'r Cyngor.

Eisiau gwybod pam bod adroddiad bod Cadeirydd yn yr adroddiad blynyddol yr un fath ag eisiau gwybod a yw y Cyngor yn mynd i dynhau ceisiadau ariannol sydd yn dod i mewn a datganwyd bod yr is-bwyllgor cyllid yn edrych ar hyn yn barod.

Eisiau gwybod pam bod y Cyngor yn talu £1.20 i'r Woodland Trus ag eglurwyd bod hyn am rhent arwydd yn Coed Llechwedd.

Ar ddechrau y cyfarfod datganodd y Clerc ei bod wedi cael e-bost gan y Cyng. Ceri Griffiths yn gofyn a fyddai modd iddi gael ei rhyddhau i beidio dod i gyfarfodydd y Cyngor am y 6 mis nesa oherwydd ei bod yn gorfod ymweld a'i Mham sydd mewn cartref nyrsio yn ddyddiol ag hefyd oherwydd pwysau gwaith. Cytunwyd i hyn gael ei ganiatau.

**CYHOEDDIADAU Y CADEIRYDD**

Datganodd y Cadeirydd ei bod wedi bod yn fis prysur a wedi cael cyfarfod gyda'r Clerc i fynd drwy materion y Cyngor ynghyd a sawl cyfarfod arall. Gofynnwyd gan un Cynghorydd a fyddai'n bosib anfon llythyr i CADW i ofyn pam bod dim fflagiau ar y castell diwrnod VE ag hefyd bod y castell ddim wedi ei oleuo a gobeithio bydd trefniadau gwell ganddynt erbyn diwrnod VJ.

**COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Ebrill 7ed 2025 fel rhai cywir.

**MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Nid oedd dim materion yn codi o'r cofnodion.

**DATGAN BUDDIANT**

Nid oedd neb yn datgan buddiant ar unrhyw fater ar yr agenda ond datganwyd bod angen pawb i gwblhau Cofrestr Buddiannau Cynghorwyr oedd y Clerc wedi ei anfon ymlaen iddynt a'i dychwelyd i'r Clerc er mwyn eu rhoi ar y wefan.

**MATERION CYNGOR GWYNEDD**

Fe dderbyniwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng. Annwen Hughes ar Cyng. Gwynfor Owen – Adroddodd y Cyng. Annwen Hughes ers y cyfarfod diwethaf ei bod wedi cael cwynion bod cwmni sgipiau yn cario allan gweithgareddau yn maes parcio Min y Don ag yn bryderus eu bod yn cario llwythi mawr ar hyd y ffordd fawr, 'roedd wedi cyfeirio y cwynion hyn i'r Swyddogion priodol yn Cyngor Gwynedd a wedi cael addewid y byddant yn edrych i mewn i hyn. 'Roedd wedi cael gwybod bod y toiledau ger gwesty y Queens wedi cael ei fandaleiddio unwaith yn rhagor. 'Roedd wedi cwrdd a un o weithwyr Cyngor Gwynedd oedd yn trwsio y toiledau ger maes parcio Min y Don a wedi cael gwybod bod rhain hefyd wedi cael ei fandaleiddio a hefyd y rhai yn maes parcio Bron y Graig Isaf ag 'roedd wedi gofyn pam bod un ciwbical ddim yn agored a nid oedd hwn wedi bod yn agored ers blynyddoedd llawer a bod un ciwbical yn toiledau y dynion yn cael ei ddefnyddio fel storfa. 'Roedd yr ymarfer yma yn cael ei gario allan mewn sawl toiled cyhoeddus yn Wynedd.'Roedd wedi cael gwybod byddai rhai o Gyngor Gwynedd yn ymweld a maes parcio Bron y Graig Isaf a cario allan unrhyw waith oedd ei angen yna.

**MATERION YN CODI**

**Ethol Swyddogion am y flwyddyn 25/26:-**

Cadeirydd:- Cyng. Christopher Braithwaite

Is-Gadeirydd:- Cyng. James Maxwell

Aelodau Pwyllgorau Eraill:-

**Cyn trafod y pwyllgorau hyn ymhellach cytunwyd i'w uno i'r canlynol a rhoid y penawdau hyn iddynt:-**

**Pwyllgor Ardal Gwyrdd** (sydd yn cynnwys y fynwent, llwybrau cyhoeddus, y ddau barc chwarae, rhandiroedd a llwybr natur Bron y Graig – Cadeirydd, Is-Gadeirydd, Cyng. Reg Chapman, Tegid John, Simon Turner a Gordon Howie

**Pwyllgor Isadeiladd** (sydd yn cynnwys y toiledau, hysbysfyrddau, llochesi bws a seddi cyhoeddus) – Cadeirydd, Is-Gadeirydd, Cyng. Rhian Corps, Mark Lewis, Wendy Williams a Martin Hughes

**Pwyllgorau y Cyngor**

Staffio – Cyng. Christopher Braithwaite, James Maxwell, Ceri Griffiths a Rhian Corps

Cyllid – Cyng. Christopher Braithwaite, James Maxwell, Reg Chapman a Martin Hughes

**Cynrychiolwyr y Cyngor a'r Bwyllgorau Allanol**

Neuadd Goffa – Cyng. Edwina Evans a Ceri Griffiths,

Yr Hen Lyfrgell – Cyng. Edwina Evans a Martin Hughes

Un Llais Cymru – Cadeirydd ar Cyng. Martin Hughes

Llywodraethwyr Ysgol Tan y Castell – Cyng. Wendy Williams

Awgrymodd y Cyng. Reg Chapman bod pwyllgor craffu yn cynnwys aelodau o'r cyhoedd ynghyd a Cynghorwyr yn cael ei sefydlu.

**Cynllun Cyllideb**

Adroddwyd bod £4,777.06 (a oedd yn cynnwys costau banc) wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd a bod hyn yn £3,400.19 o wariant yn llai na oedd wedi cael ei glustnodi yn y gyllideb am y flwyddyn 2025/26.

**Adroddiad Blynyddol y Cyngor**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi paratoi y drydydd adroddiad blynyddol ar ran y Cyngor ag ei bod wedi anfon hon ymlaen i bob Aelod o flaen y cyfarfod. Cytunwyd i ddod ar adroddiad hon yn nol i'r Cyngor unwaith fydd y Cadeirydd wedi llunio ei gyflwyniad ei hun ar gychwyn yr adroddiad.

**Gwefan y Cyngor**

Adroddodd y Clerc bod y wefan bellach yn fyw ond bod angen ychwanegu rhai petha iddi wrth symud ymlaen. Hefyd cafwyd wybod bod e-bost y Clerc wedi stopio gweithio pan yn trosglwyddo o un wefan i un arall.

**Cynllun Rheolaeth Llwybr Natur**

Adroddodd y Clerc bod Mr. Tom Edwards wedi cysylltu a hi yn dweud ei fod wedi gorffen y gwaith yn y safle uchod ag hefyd datganodd ei bod wedi cael gwybod gan Swyddog Coed y Parc Cenedlaethol eu bod wedi talu hanner y gost am wneud y gwaith hwn. Cafwyd wybod gan y Cyng. James Maxwell ei fod wedi tynnu y babell oedd yn y llwybrau i lawr.

**Tir Penygraig**
Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn enw dau syrfewr hwyrach y fyddai'n gallu cario allan y gwaith archwiliad sef Stefan Imiolczyk o gwmni Groundsolve Ltd a cwmni Datrys o Gaernarfon. Cytunwyd anfon at y ddau yn gofyn am bris I gario y gwaith syrfeio allan.

**Glanhau traeth Harlech (ardal gogleddol)**
Adroddodd y Cyng. Simon Turner ei fod yn dal I gael trafferth I ddod o hyd I dractor a trelar ag hefyd ei fod yn disgwyl I'r golff ddod yn nol ato. 'Roedd cwmni Waffle a Grace yn barod a ddim ond angen cyfro eu costau.

**Ffens ar hyd yr A496**
Adroddodd y Clerc ei bod wedi gofyn i Mr. Meirion Evans am bris i dynnu y ffens i lawr ag 'roedd wedi derbyn pris o £700 heb TAW ganddo oherwydd ei fod yn datgan bod y coed mewn concrid a byddai angen machine a grab i gael y pyst allan ag hefyd gyrrwr am y diwrnod a tractor a trailer a gwaredu y coed. Cytunwyd i beidio a derbyn y pris hwn a gofyn am bris i dorri y coed i lawr i lefel y ddaear yn unig.

**HAL**
Derbyniwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng. Mark Lewis ynglyn a'r sefyllfa diweddaraf ynglyn a HAL
Ym mis Ebrill, parhawyd tîm Cyngor Cymuned Harlech/ HAL i weithio gyda Chynllun y Bobl a chystadleuwyr Gymnasteg Moelwyn i wella eu cynlluniau busnes. Cawsom gyfarfod wyneb yn wyneb ag aelodau'r ddau dîm i adolygu. Mae ganddynt hyd at ddiwedd yr wythnos hon i gyflwyno unrhyw dystiolaeth newydd.
Derbyniwyd cadarnhad ysgrifenedig gan Gyngor Gwynedd y byddai, os gwirfoddolai y Cyngor Cymuned y safle ac yn ei lesi i un o'r ddau gystadleuydd, ac yna byddai'r cystadleuydd yn methu, y byddai Cyngor Cymuned Harlech yn cael gwerthu'r safle am y pris marchnad gyda'r holl orchod wedi'u dileu.

Mae prisio y safle wedi'i drefnu ar gyfer 23ain Mai. Mae'r tîm yn cynllunio i gyflwyno eu hargymhelliad am bleidlais yn cyfarfod Cyngor Cymuned Harlech yn mis Mehefin. Bydd yr argymhelliad hwn yn cynnwys:
• Esboniad o'r buddion cymunedol a ddisgwylir
• Model ariannol o'r ddewis a argymhellir
• Asesiad risg o'r cynllun gyda lliniariad• Gwerthusiad masnachol o'r safle
• Amcangyfrif o'r cyllid sydd ei angen gan Cyngor Cymuned Harlech i gefnogi'r opsiwn
• Cais cyllid ar unwaith i drafod trosglwyddo'r ased, yswiriant yn ystod y newid, cyfrifon terfynol a chau HAL.

Hefyd cafwyd wybod gan y Cadeirydd ar Cyng. Mark Lewis eu bod wedi derbyn e-bost gan y Cyng. Gwynfor Owen y neu hysbysebu ei fod wedi trefnu cyfarfod gyda Chyngor Gwynedd er mwyn trafod pethau o'I hochor hwy dydd Gwener yr 16eg o'r mis hwn am 2.15 o'r gloch yn yr Hen Lyfrgell.

**Diweddariad o'r pwyllgor Y Ffordd Ymlaen**
Dangoswyd y ddogfen ynglyn ar uchod i bawb sydd yn dangos y cynydd mae y Cyngor yn ei wneud ynglyn a gwahanol faterion. Cytunwyd rhoid cwblhau mandad newydd, rhestr o'r cyrsiau hyfforddiant sydd ar gael i Aelodau ar Clerc ag aelodaeth Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol ar agenda mis nesa. Cytunwyd archebu gliniadur ar gost i fyny hyd at £500 i'r Clerc a rhoddwyd ganiatad i'r is-bwyllgor cyllid edrych i mewn i hyn ag adrodd yn nol i'r Cyngor.

**CEISIADAU CYNLLUNIO**
**Trosi modurdy presennol yn ystafelloedd cyfanheddol ynghyd â gosod to brig llechi a newidiadau cysylltiedig Drws-y-Coed, Harlech (NP5/61/666A)**
Cefnogi y cais hwn.

**Tynnu'r to a'r gwydr presennol a chodi to newydd, 400mm yn uwch na'r presennol, ynghyd â gosod tair ffenestr dormer newydd Llechwedd Du Bach, Harlech (NP5/61/377B)**
Cefnogi y cais hwn.

**Cais ôl-weithredol i gadw amrywiadau a wnaed i garej/storfa/gweithdy a gymeradwywyd dan Gais Cynllunio NP5/61/531A dyddiedig 09/08/2012 Brynteg, Ffordd Isaf, Harlech (NP5/61/531B)**
Cefnogi y cais hwn.

**ADRODDIAD Y SWYDDOG ARIANNOL CYFRIFOL**
Adroddodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol bod £50,463.10 yn y cyfrif rhedegol a £84,344.85 yn y cyfrif cadw.

**Taliadau yn ystod y mis**
Un Llais Cymru - £42.00 – hyfforddiant Cynghorwr (Cyng. James Maxwell)
Mr. Tom Edwards - £2,875.00 - gwaith coed ar llwybr natur Bron y Graig
Mr. G. J. Williams - £202.00 - torri gwair cae chwarae Brenin Sior
Clear Insurance Ltd - £2,452.45 – yswiriant y Cyngor

Fe gafodd y taliadau uchod eu prosesu gan y Cyng. Gordon Howie a wnaeth y Cyng. Edwina Evans gymeradwyo'r taliadau ag fe roddwyd ganiatad I'r Clerc/Trysorydd I'w talu ar lein neu drwy siec ar ddiwedd y cyfarfod.

**Derbyniadau yn ystod y mis**
Ms Delyth Kerr - £40.00 – rhent rhandir rhif 12
Ms Melissa Morgan - £40.00 – rhent rhandir rhif 17 a 18
Mrs Linda Soar - £20.00 – rhent rhandir rhif 11 (a)
Mrs Maureen Kendrick - £25.00 – rhent rhandir rhif 9
Mr. Tim Brooks - £20.00 – rhent rhandir rhif 5
Mr. Gareth Jones - £20.00 – rhent rhandir rhif 11 (b)
Mr. Dafi Owen - £150.00 - rhent rhandir rhif 1, 2 a 3
Cyngor Gwynedd - £42,500.00 - hanner y precept
Cyllid a Thollad - £374.14 – ad-daliad TAW
Ms Paula Ireland - £30.00 – rhent rhandir rhif 7

**Anfonebau wedi eu talu ers y cyfarfod diwethaf**
Catrin Soraya Williams – £145.00 - gwasanaeth cyfieithu
Mr. Lee Warwick - £135.00 – glanhau toiledau cyhoeddus ger y castell

Adroddodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol ei bod wedi derbyn yr Adroddiad Archwiliad Allanol am 2022/23 a 2023/24 yn nol gan yr Archwiliwr Allanol ag 'roedd rhain wedi eu uwchlwytho i'r wefan yn barod. 'Roedd rhai materion yn y ddwy adroddiad ddim yn gywir yn marn y Cadeirydd ar Swyddog Ariannol Cyfrifol ag 'roedd adroddiad wedi cael ei llunio mewn ymateb i'r ddwy adroddiad oedd wedi eu derbyn. Cytynwyd uwchlwytho yr adroddiad hon ar wefan y Cyngor.

**GOHEBIAETH**
**Ms Paula Ireland**
Wedi derbyn e-bost gan yr uchod ynglyn ar rhandiroedd ag yn gofyn a fyddai yn iawn i rentu rhandir allan i berson sydd yn byw tu allan i'r gymuned. Cytunwyd i beidio caniatau i rentu rhandir i rhai o tu allan i'r gymuned.

**Teulu Castell**
Wedi derbyn cerdyn diolch gan yr uchod ynglyn ar rhodd ariannol roeddynt wedi cael gan y Cyngor Cymuned yn ddiweddar.

**Cyngor Gwynedd – Adran Economi**

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor bod y Cronfa Cefnogi Adfywio Cymunedau (SPF) bellach wedi agor  a bod grantiau rhwng £10,000 a £100,000 ar gael. 'Roedd y Clerc wedi anfon hwn ymlaen I bob Aelod yn barod a datganwyd siom bod ddim digon o amser I allu cwblhau y ffurflen gais.

**ARWYDDWYD.............................................**Cadeirydd

**DYDDIAD.....................................................** 843